Hawdd ei Ddeall

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent Public Services Board

# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

## Beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mawrth 2024

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Blynyddol 2024**'.

**Tachwedd 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 24**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Website:** www.gwentpsb.org/cy

**Email:** BGCgwent@caerffili.gov.uk

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247.

# Cynnwys


**Pwy ydyn ni a beth ydy'r llyfryn yma ..... 4**

**Mwy am ein cynllun llesiant ..... 6**

Gwent tecach ..... 8

Gwent ac allyriadau carbon ..... 10

Cydweithio ..... 13

**Beth mae angen i Went ganolbwyntio arno ..... 14**

Mae pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ..... 16

Mae pawb yn byw mewn man lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ..... 17

Mae pawb yn cael yr un cyfle i ennill digon o arian i fyw arno ..... 18

Mae pawb yn byw mewn cymuned sy'n barod am hinsawdd ..... 18

Gweithio gyda'r trydydd sector ..... 19

Adolygiad Diogelwch Cymunedol ..... 20

**Cymryd rhan ..... 21**

Hyfforddiant ..... 22

**Beth fydd yn digwydd nesaf ..... 23**

**Geiriau Anodd ..... 24**

# Pwy ydyn ni a beth ydy'r llyfryn yma

Rydyn ni'n cael ein galw'n **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent**. Fe fyddwn ni yn galw ein hunain yn **BGC Gwent** yn fyr.




Rydyn ni'n grŵp o sefydliad **gwasanaethau cyhoeddus** sy'n cydweithio i wella gwasanaethau yng Ngwent.



Mae **gwasanaethau cyhoeddus** yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg ar gyfer y cyhoedd. Er enghraifft, cynghorau lleol, byrddau iechyd, gwasanaethau tân, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, a thrafnidiaeth gyhoeddus.




Fe wnaethon ni gynllun i helpu i wella llesiant Gwent yn 2023.




Mae hyn i gyd am y gwaith rydyn ni wedi'i wneud hyd yma i gyflawni'r nodau yn y cynllun hwnnw.

# Mwy am ein cynllun llesiant



Mae'r cynllun llesiant am wneud yn siŵr bod Gwent yn lle teg i fyw i bawb.



Rydyn ni eisiau i bawb yng Ngwent deimlo eu bod wedi'u cynnwys.



Rydyn ni eisiau gofalu am yr amgylchedd nawr ac yn y dyfodol.

Rydyn ni eisiau:



- Gwneud yn siŵr bod gan bobl ddigon o arian i fyw arno.



- Gwneud yn siŵr bod gan bobl gartrefi da i fyw ynddyn nhw.




- Cymryd camau i leihau **allyriadau carbon** a delio â **newid yn yr hinsawdd**. Ac amddiffyn ein hamgylchedd.



**Allyriadau carbon** ydy'r nwyon sy'n cael eu cynhyrchu gan bethau fel olew a nwy. Maen nhw'n niweidio'r blaned ac yn achosi iddi gynhesu.



**Newid yn yr hinsawdd** ydy effaith allyriadau carbon ar y blaned. Mae'r blaned yn cynhesu ac mae hyn yn achosi niwed.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg.



- Cefnogi cymunedau i fod yn gryf ac yn gysylltiedig yn ddiogel.

## Gwent tecach



Mae llawer o bethau yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant pobl.




Mae rhai o'r pethau yma allan o reolaeth pobl. Er enghraifft, gwasanaethau yn eu hardal.




Mae rhai ardaloedd o Went yn cael eu **hamddifadu**.

Mae **amddifadedd** yn meddwl bod heb y pethau sylfaenol mae angen i bobl fyw arnyn nhw. Er enghraifft, digon o fwyd, arian, gwresogi, tai da a phethau eraill.



Pan fydd pobl yn byw mewn **amodau difreintiedig** mae hyn yn gallu cael effaith fawr ar:


- eu hiechyd,
- llesiant,
- hyd yn oed am ba mor hir maen nhw'n byw.




Yn 2023 fe wnaethon ni adroddiad hefyd gyda'r **Sefydliad Tegwch Iechyd**. Ei enw oedd Adeiladu Gwent tecach.



Roedd hyn yn ein helpu i feddwl am beth sydd angen ei wneud, fel bod gan bobl fynediad cyfartal at iechyd da.




Fe gafodd nifer o gamau eu cymryd i helpu i gyflawni beth sydd yn yr adroddiad hwnnw.

## Gwent ac allyriadau carbon




Mae pobl wedi dweud wrthyn ni eu bod yn poeni am **newid hinsawdd** a'r amgylchedd.



Mae 60 o brosiectau yng Ngwent yn ymwneud â diogelu ein hamgylchedd.



Mae cynghorau lleol hefyd yn gwneud cynlluniau i leihau **allyriadau carbon**.



Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob **gwasanaeth cyhoeddus** gyrraedd **sero net** erbyn 2030.

Mae **sero net** yn meddwl nad ydyn ni'n cynhyrchu mwy o **allyriadau carbon** nag rydyn n'n gallu delio â nhw. Er enghraifft, drwy ddefnyddio ffyrdd eraill o wneud tanwydd a defnyddio technoleg i gael gwared ar garbon.




Mae'r materion yma yn bwnc pwysig yn yr adroddiad **Adeiladu Gwent tecach**. Mae hyn oherwydd  bod **newid yn yr hinsawdd** yn gallu cael effaith fawr ar ein hiechyd.



Er enghraifft, mae rhai ardaloedd yng Ngwent mewn mwy o berygl o lifogydd a llygredd nag eraill.




Mae cynllun wedi'i wneud o'r enw **Fframwaith Asesu Risg Newid Hinsawdd ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**. Mae hyn er mwyn helpu gwasanaethau cyhoeddus i gynllunio ar gyfer **newid yn yr hinsawdd**.



Er mwyn helpu i wella llesiant yng Ngwent fe wnaethon ni sefydlu grŵp o'r enw **Grŵp Gweithredu Llesiant Strategol Gwent (GSWAG)**.


Rhai o amcanion y grŵp yma ydy:



- Bod yn grŵp cymorth i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.
- Gwneud cynllun llesiant Gwent.




- Gwneud y gwaith sydd ar gael i'w weld ar ein gwefan.




- Gwneud adroddiad bob blwyddyn.



Mae grwpiau lleol llai ym mhob ardal cyngor lleol hefyd. Maen nhw yn cefnogi ein gwaith yn lleol.

## Cydweithio



Mae cydweithio ar draws Gwent yn bwysig iawn. Ond mae hefyd fod yn gallu bod yn anodd.




Mae cydweithio wedi ein helpu i wneud y gorau dros ardal Gwent.



Mae'n gallu bod yn anodd achos mae gan ardaloedd nodau gwahanol weithiau.



Hefyd, dydy pob gwasanaeth cyhoeddus ddim yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae gwasanaethau'r heddlu yn cael eu rhedeg gan Lywodraeth y DU.



Mae Gwent yn ardal fawr, ac mae'n gallu bod yn anodd dod â phawb at ei gilydd. Ac i gytuno ar yr un nodau a gweithredoedd.

# Beth mae angen i Went ganolbwyntio arno

Mae wedi bod yn bwysig penderfynu:



- beth mae angen i ni ganolbwyntio arno



- a pha gamau mae'n rhaid i ni eu cymryd.



Fe wnaethon ni gynnal gweithdai i edrych ar hyn.

Yn y gweithdai, roedden ni'n siarad am y 4 nod yma:



- Mae pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.



- Mae pawb yn byw mewn man lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel.



- Mae pawb yn cael yr un cyfle i ennill digon o arian i fyw arno.



- Mae pawb yn byw mewn **cymuned sy'n barod i'r hinsawdd**, lle mae eu hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu. Mae hyn yn meddwl bod cynllunio wedi digwydd i feddwl am yr amgylchedd a'r **newid yn yr hinsawdd**.



Daeth llawer o sefydliadau i'r gweithdai. Gyda'n gilydd, fe wnaethon ni lunio canlyniadau ar gyfer pob un o'r nodau uchod.



Canlyniadau ydy'r pethau sy'n digwydd, oherwydd y camau rydyn ni'n eu cymryd.

## Mae pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd




**Canlyniad 1**: Mae'n well i ni edrych ar, a mesur anghenion plant. A bob amser yn ceisio gwella.



**Canlyniad 2**: Cefnogir pob plentyn a theulu gan yr holl wasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth gan blant 0 i 7 oed. Mae'r gwasanaethau'n helpu yn gynnar ac yn stopio problemau rhag gwaethygu.

## Mae pawb yn byw mewn man lle maen nhw’n teimlo’n ddiogel



**Canlyniad 1**: Mae gwasanaethau’n defnyddio ffordd o weithio o’r enw Y**marfer ar sail Trawma ac ymwybyddiaeth ACE**. Mae’r rhain yn ffyrdd o ddiogelu plant a phobl ifanc rhag y canlynol:

- niweidio,
- ac yn cefnogi datblygiad a thwf iach.




**Canlyniad 2**: Gwneud yn siŵr bod gan wasanaethau’r mannau cywir yn y cymunedau sydd eu hangen. a chynnig y gefnogaeth maen nhw ei angen.



**Canlyniad 3**:  Cyflwynir **Strategaeth Dyletswydd Trais Difrifol Gwent** i helpu i gadw cymunedau’n ddiogel.



**Canlyniad 4**: Rydyn ni’n gweithio gyda’n gilydd i wella diogelwch.

## Mae pawb yn cael yr un cyfle i ennill digon o arian i fyw arno



**Canlyniad 1**: Cefnogi pobl i gael cyfleoedd teg i gael hyfforddiant a swyddi.

## Mae pawb yn byw mewn cymuned sy'n barod am hinsawdd



**Canlyniad 1**: Mae Gwent yn fwy parod ar gyfer effeithiau **newid hinsawdd** mewn ffordd deg. Mae'n dysgu mwy am beryglon lleol.



**Canlyniad 2**: Mae tir cyhoeddus o fudd i bobl, natur a'n hinsawdd mewn ffordd deg.

# Gweithio gyda'r trydydd sector



Mae'r trydydd sector yn meddwl sefydliadau fel elusennau a sefydliadau cymunedol.



Yng Ngwent maen mhw yn rhan o grwpiau o'r enw:

- **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)**
- a **Chynghrair Gwirfoddol Torfaen (TVA)**.



Maen nhw wedi dod yn bartneriaid gweithio agos i ni. Maen nhw'n chwarae rhan bwysig yn ein gwaith.

# Adolygiad Diogelwch Cymunedol



Cafodd adolygiad ei gynnal i edrych ar sut y cafodd diogelwch cymunedol ei reoli ar draws Gwent.



Fe wnaethon ni weld fod ardaloedd yn gweithio'n wahanol. Felly, mae gan bob cyngor lleol bellach **Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol**.



Mae llawer o waith yn digwydd. Mae'n gallu bod yn anodd cydgysylltu'r gwaith yma oherwydd bod rhai gwasanaethau yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru. A rhai gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.



I helpu gyda'r materion yma, rydyn ni'n edrych i sefydlu grŵp o'r enw **Bwrdd Diogelwch Cymunedol Gwent**.

# Cymryd rhan



Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda gwahanol artistiaid mewn digwyddiad yng Nghanolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange.



Roedd yn ein helpu i ddarganfod beth mae pobl Torfaen yn ei feddwl am ddyfodol iach.



Roedden ni eisiau gweld sut fyddai gweithgareddau celf yn helpu pobl i gymryd rhan a dweud eu barn wrthyn ni.



Roedd y grwpiau yn siarad am sut mae pethau fel cartrefi, mannau gwyrdd, ysgolion a phethau eraill yn effeithio ar ddyfodol iach.

# Hyfforddiant



Fe wnaeth nifer o bobl sy'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent fynd ar gwrs o'r enw **Cwrs Eco-Llythrennedd Nature Wise**.



Fe fydd yr hyfforddiant yma yn helpu pobl i feddwl am yr amgylchedd a'n cynllun llesiant.



Aeth pobl eraill i gwrs o'r enw **Asesu Risg Hinsawdd**. Fe fydd hyn yn ein helpu i feddwl am beryglon **newid hinsawdd** yng Ngwent.


# Beth fydd yn digwydd nesaf




Oherwydd llawer o newidiadau, mae angen i ni edrych ar ein haelodaeth eto a'i diweddaru.



Rydyn ni hefyd yn credu y byddai rhywfaint o hyfforddiant a datblygiad yn ddefnyddiol i'r grŵp.




Mae gennym ni **fframwaith cyflenwi newydd**. Dyma gynllun o sut fyddwn ni'n gweithio a beth fyddwn ni'n ei wneud.




Fe fydd hyn yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion.

# Geiriau Anodd

## Allyriadau carbon

Dyma'r nwyon sy'n cael eu cynhyrchu gan bethau fel olew a nwy. Maen nhw'n niweidio'r blaned ac yn achosi iddi gynhesu.

## Difreintiedig

Mae hyn yn meddwl bod heb y pethau sylfaenol mae angen i bobl fyw arnyn nhw. Er enghraifft, digon o fwyd, arian, gwresogi, tai gweddus a phethau eraill.

## Gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg ar gyfer y cyhoedd. Er enghraifft, cynghorau lleol, byrddau iechyd, gwasanaethau tân, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth gyhoeddus a llawer o wasanaethau eraill.

## Newid hinsawdd

Dyma effaith allyriadau carbon ar y blaned. Mae'r blaned yn cynhesu ac mae hyn yn beryglus.

## Sero net

Mae hyn yn meddwl nad ydyn ni yn cynhyrchu mwy o allyriadau carbon nag rydyn ni'n gallu delio â nhw. Er enghraifft, drwy ddefnyddio ffyrdd eraill o wneud tanwydd a defnyddio technoleg i gael gwared ar garbon.